ATODLEN 1 Rheoliad 3(1)(a)

FFURFDEDDF PRIFFYRDD 1980, ADRAN 118BGORCHYMYN DILEU ARBENNIG AR GYFER PRIFFYRDD PENODOL SY'N CROESI TIR SY'N CAEL EI FEDDIANNU AT DDIBENION YSGOL

[ENW'R AWDURDOD]

[ENW'R GORCHYMYN]

Gwneir y Gorchymyn hwn gan [mewnosoder enw'r Awdurdod] ("yr Awdurdod") o dan adran 118B(4) o Ddeddf Priffyrdd 1980 ("Deddf 1980") oherwydd ei bod yn ymddangos i'r Awdurdod, o ran y briffordd berthnasol [gweler troednodyn 1] a ddisgrifir yn erthygl 1 isod ("y briffordd"),-

(a) mai'r Awdurdod yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer y briffordd;

(b) bod y briffordd yn croesi tir sy'n cael ei feddiannu at ddibenion ysgol; a

(c) ei bod yn hwylus at ddiben amddiffyn y disgyblion neu'r staff rhag-

(i) trais neu fygythiad o drais,

(ii) harasio,

(iii) braw neu ofid sy'n deillio o weithgaredd anghyfreithlon, neu

(iv) unrhyw risg arall i'w hiechyd neu i'w diogelwch sy'n deillio o weithgaredd o'r fath,

fod y briffordd yn cael ei chau.

Ymgynghorwyd â'r awdurdod heddlu [mewnosoder enw'r awdurdod heddlu] ar gyfer yr ardal lle y mae'r briffordd wedi'i lleoli fel sy'n ofynnol gan adran 118B(6) o Ddeddf 1980.

Ymgynghorwyd â'r Awdurdod[au] [mewnosoder enw(au)] fel sy'n ofynnol gan adran 120(2)(a) o Ddeddf 1980 [dylid cwblhau neu ddileu fel y bo'n briodol].

Mae Awdurdod[au] [mewnosoder enw(au)] wedi cydsynio bod y Gorchymyn yn cael ei wneud fel sy'n ofynnol gan adran 120(1A) a (2)(b) o Ddeddf 1980 [dylid cwblhau neu ddileu fel y bo'n briodol].

[Ymgynghorwyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol [mewnosoder enw] fel sy'n ofynnol gan adran 120(2)(a) o Ddeddf 1980]

[Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol [mewnosoder enw] wedi cydsynio bod y Gorchymyn yn cael ei wneud fel sy'n ofynnol gan adran 120(2)(b) o Ddeddf 1980] [dylid cwblhau neu ddileu fel y bo'n briodol]

[Ymgynghorwyd â Chyngor Cefn Gwlad Cymru fel sy'n ofynnol gan adran 120(2)(c) o Ddeddf 1980.]

GAN Y GORCHYMYN HWN:

1. Bydd yr hawl dramwy gyhoeddus dros y tir a leolir yn [ym] [yng] [mewnosoder lleoliad], a ddangosir ar y map a gynhwysir yn y Gorchymyn hwn â llinell drom ddi-dor ac a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn cael ei dileu, a hynny ar ôl [mewnosoder nifer] o ddiwrnodau ar ôl dyddiad cadarnhau'r Gorchymyn hwn.

2. [Mae'r ddarpariaeth(darpariaethau) a ganlyn yn gymwys er mwyn amddiffyn [mewnosoder enw ymgymerydd statudol], sef: [mewnosoder darpariaeth(au)]] [dylid cwblhau neu ddileu fel y bo'n briodol - gweler troednodyn 2].

[mewnosoder y dyddiad]

Llofnodwyd [mewnosoder llofnod]

[safle o fewn yr Awdurdod]

[enw'r Awdurdod]

## YR ATODLEN

[Dylid disgrifio lleoliad, hyd a lled y briffordd fesul rhan, e.e. A-B, B-C ac yn y blaen, fel a ddangosir ar y map]

Y Troednodiadau

1. Diffinnir "relevant highway" ("priffordd berthnasol") yn adran 118B(2) o Ddeddf 1980 fel -
   (a) unrhyw lwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig;
   (b) unrhyw briffordd a ddangosir ar fap diffiniol ac mewn datganiad fel llwybr troed, llwybr ceffylau, neu gilffordd gyfyngedig, ac y mae gan y cyhoedd hawl dramwy drosti ar gyfer cerbydau a phob math arall o draffig; neu
   (c) unrhyw briffordd a ddangosir ar fap diffiniol ac mewn datganiad fel cilffordd sydd ar agor i bob traffig,

   ond nid yw'n cynnwys priffordd sy'n gefnffordd neu'n ffordd arbennig.

2. Gweler adran 121(5) o Ddeddf 1980.

Dylid llenwi'r bylchau fel y bo'n briodol.